

Iesu'n Esgyn

Bedwar deg diwrnod wedi iddo godi o'r bedd yn fyw, aeth yr Iesu i fyny i'r nefoedd. Cyn iddo esgyn, cododd ei ddwylo a bendithio'r disgyblion. Wrth iddo gael ei godi i'r nef, roedd y disgyblion yn gwyllo mewn rhyfeddod. Yna, aethon nhw nôl i Jerwsalem yn llawn llawenydd mawr.



"Ar ôl i'r Arglwydd Iesu orffen siarad â nhw, cafodd ei gymryd i fyny i'r nefoedd i lywodraethu yno gyda Duw." Marc 16:19

Allwch chi dynnu llun y disgyblion yn gwylio'r Iesu'n mynd fyny i'r nefoedd?



Gwers 29

Iesu'n Esgyn

Testun y Beibl: Luc 24:50-53

Adnod allweddol: Marc 16:19

Pwrpas: Bydd y plant yn deall mai Mab Duw yw'r Iesu a bod yr Iesu wedi dod oddi wrth Dduw a'i fod yn mynd nôl at Dduw wedi gorffen ei genhadaeth ar y ddaear.

Nodwch os gwelwch yn dda!

Cynlluniwch weithgareddau addas ar gyfer eich grŵp o blant. Gall y gweithgareddau canlynol gael eu haddasu'n dibynnu ar faint, oed a gallu'r grŵp, ynghyd â'r amser sydd ar gael ac yn y blaen.

I. Gwers

Cyn gweithio ar y dudalen liwio, darllenwch y darn o'r Beibl, Luc 24:50-53.

Ar gyfer plant ieuengach: darllenwch y testun yn uchel.

Ar gyfer plant hŷn: gall y plant eu hunain ddarllen y testun yn uchel.

Helpwch y plant i ddeall:

Roedd yr Iesu'n gwybod pwy oedd; roedd yn gwybod ei fod yn Fab Duw. (Ioan 17:1)

Roedd yr Iesu'n gwybod mai ei genhadaeth ar y ddaear oedd gwasanaethu a rhoi ei fywyd i achub pechaduriaid. (Marc 10:45).

Roedd yr Iesu'n gwybod y byddai'n mynd yn ôl i'r nef, o'r lle y daeth. (Ioan 13:3; 20:17)

Aeth yr Iesu i'r nef i baratoi lle i bob Cristion. (Ioan 14:2).

II. Gweithgareddau

1. Adnod allweddol

a. Darllenwch yr adnod yn uchel.

"Ar ôl i'r Arglwydd Iesu orffen siarad â nhw, cafodd ei gymryd i fyny i'r nefoedd i lywodraethu yno gyda Duw." Marc 16:19

b. Eglurwch yr adnod:

Cyn mynd yn ôl at ei Dad, siaradodd yr Iesu gyda'r disgyblion un waith eto. Roedd yr Iesu gyda'i ddisgyblion tan y funud olaf, cyn mynd i fyny i'r nef. Yn awr mae gan yr Iesu le o anrhydedd ar law dde Duw.

c. Helpwch y plant i ddysgu'r adnod.

Gallwch ddefnyddio gemau neu gystadlaethau gwahanol i helpu'r plant i ddysgu'r adnod allweddol.

3. Adolygwch gwestiynau ar gyfer y plant:

I ble yr aeth yr Iesu â'r disgyblion?

Beth wnaeth yr Iesu cyn mynd i'r nefoedd?

Beth wnaeth y disgyblion?

Sut aeth y disgyblion yn ôl i Jerwsalem?

Beth oedd y disgyblion yn ei wneud yn y Deml?

III. Diwedd glo

Mab Duw yw'r Iesu. Fe wnaeth addo ei fod yn paratoi lle i ni yn y nef (Ioan 14:2-3). Dim ond plant Duw sy'n mynd i'r nefoedd. Wyt ti yn blentyn i Dduw?